pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:58 pm Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2022 Rhif 481



Tri o sêr y sioe 'Lloergan' : Miriam, Sam a Lynwen.

## *Rhifyn arbennig 16tt yn cynnwys atodiad lliw 'Hwyl yr Haf'*

# Sioeau ac Eisteddfod

Bu'n haf poeth a sych ac, wedi cyfnod hesb o ganlyniad i Cofid, daeth y cyfle o'r diwedd, i fwynhau digwyddiadau torfol gan gynnwys y Sioe Fawr, yr Eisteddfod a Sioe Tal-y-bont .

Mae cynnwys y papur yn adlewyrchu hynny ac oddi mewn mae atodiad arbennig 'Hwyl yr Haf' yn llawn lluniau lliw o ddigwyddiadau'r misoedd diwethaf.

Bu rai o drigolion yr ardal yn llwyddiannus iawn yn y Sioe Fawr a gynhaliwyd yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf. Gwobrwywyd hwrdd Enoc Jenkins, Tŷ'n Graig, ac hefyd wartheg godro teulu Jenkins, Cerrigcaranau. Roedd Dewi Jenkins hefyd yn llwyddiannus. Cipiodd Janet Jones, Llwynglas, sawl gwobr yn yr adran goginio. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.




*Hysbyseb deniadol i'r sioe gan Ruth Jên*



*Enillodd Janet Jones wobrau lu yn y Sioe Fawr a Sioe Tal-y-bont*

Braf oedd gweld Sioe Tal-y-bont yn dychwelyd i'n diddanu ar ôl dwy flynedd o fwlch. Er bod lle i ganmol y rhai a fu'n ymdrechu'n ddygn i gynnal y sioeau rhithiol yn 2020 a 2021, does dim byd tebyg i droedio Caeau'r Llew Du ar ddiwrnod hyfryd ddiwedd Awst.

Roedd cystadlu brwd fel erioed gyda mwy na'r arfer o wartheg yn y cylch eleni, gyda theulu Cerrigcaranau yn cipio nifer o wobrau. Yn llwyddiannus hefyd yn yr adran ddefaid oedd teuluoedd Tŷ'n graig, Llety Ifan Hen, Glanrafon a Dolclettwr.

Un datblygiad newydd llwyddiannus oedd y stryd o stondinau gan grefftwyr yn hytrach na'r babell arferol a chafwyd hefyd arddangosfeydd sylweddol o hen beiriannau. Elfen arall ddifyr i'w chroesawu oedd yr arddangosfa pedoli ceffyl gan Rhydian Evans, Neuadd Fawr.

Roedd amrywiaeth o enillwyr yn y babell, o'r profiadol i'r ifanc. Cyflwynwyd y cwpanau i'r buddugwyr gan y Llywyddion, Marion a Dilwyn Evans, Tynant (er nad ydynt erbyn hyn yn cael cadw'r cwpanau am yn hir a hynny am resymau da!).

Arhosodd nifer fawr i wylio'r rasys cŵn ar ddiwedd y prynhawn a chafwyd noson hwyliog ar ffald Tanrallt yn y Cneifio Cyflym.

parhad tud 4

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:58 pm Page 2

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, John Evans

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*


am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

## Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Fal a Gwyn gyda Ceri'n dylunio.

Mair (mair.n@btinternet.com), Betsan (betsanelenid@gmail.com) a Beryl (ffermglanrafon1@btconnect.com) fydd yn golygu rhifyn Hydref.

Y dyddiad cau yw 7 Hydref a bydd y papur ar werth ar 14 Hydref.



**"Torth ffres... faint dech chi'n cynnig... £1.20 ... £1.30 ... £1.40 ... £1.50 ! "**

## Digwyddiad Dolau Dyfi

Ymunwch â ni am ddigwyddiad hwyliog i ddathlu prosiect Dolau Dyfi yn Y Plas ym Machynlleth, ar y 24ain o Fedi 11. Yn anffodus mae'r prosiect yn dod i ben ond byddwn yn dathlu gyda diwrnod llawn gweithgareddau. Ymunwch â ni am gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau natur gan gynnwys teithiau tywys, celf a chrefft ac am rai perfformiadau arbennig yn ystod y prynhawn. Croeso i bawb, a dewch â ffrindiau a theulu gyda chi i'n helpu ni i ddathlu mewn steil.

Mae'r prosiect hwn wedi cael cyllid drwy Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

**Louisa Lloyd**
Swyddog Prosiect SMS Dolau Dyfi
louisa.lloyd@pontcymru.org





**Garej Davmor**
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278





**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**MEDI**

11 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
**Rehoboth** 5 Gweinidog
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Bethesda, Tynant** 2 Cwrdd Diolchgarwch

13 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Cadair Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion' (Rees Thomas)

16-18 **Gŵyl Lenyddol R. S. Thomas** yn Eglwysfach

17 **Ffrindiau Cartref Tregerddan** 2.30 - Tê Prynhawn yn Neuadd Penrhyn-coch . Elw i Gartref Tregerddan

18 **Bethel** 10 Uno â Seion (Zoom)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Sesiwn Galw Heibio i Hogi Offer** Cletwr

22 **Meddwlgarwch a Myfyrio** Cletwr

24 **Cymdeithas Brodwaith Cymru**. Arddangosfa gwaith llaw rhwng 10.30 a 4 o'r gloch yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth

25 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Rehoboth** 10 Gweinidog
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Cyfarfod yr Artist John Ibbotson** Cletwr

**HYDREF**

1 **Dal ati** 10.30 Cletwr

2 **Bethel** 10 Uno â Seion (Zoom)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid

9 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
**Rehoboth** 2 Gweinidog
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

11 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Arddangosfa Gwaith Llaw' (Eryl Evans a Diana Jones)

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'


*Rhian*
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553



*Salon Leri*
*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*
*10am-7pm*
*Llun-Gwener*
*(01970) 832 674*

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:58 pm Page 3

# Pobl a Phethe

**Gwobr Catrin**
Cyflwynwyd Gwobr Goffa Gwyn Thomas eleni i Catrin Eleri Huws, Henllan, Tal-y-bont gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – Cangen Bangor. Llongyfarchiadau i ti Catrin a phob hwyl gyda dy waith ymchwil.

**Wedi Ymddeol**
Dymuniadau gorau am ymddeoliad hir a haeddiannol i Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont, Martin Dafis, Taliesin a Nigel Hardy, Tŷ Wesle, Tre'r ddôl.

**Cartrefi Newydd**
Mae'n ddistaw iawn yn Ardwyn, Tal-y-bont erbyn hyn gan fod Rhian a'i chwaer Nia wedi gadael y nyth! Symudodd Rhian i fyw i Lanilar a Nia i Benrhyn-coch. Pob hwyl i chi ferched yn eich cartrefi newydd.

**Brysiwch wella**
Blin gennym glywed nad yw Mr Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail heb fod yn dda yn ddiweddar. Brysiwch wella.

**Babis! Babis!**
Ganed mab bach, Rory, i Amy a Jake ym Mhenparcau – wyr cyntaf Nana a Dadcu, Llys Dewi, Tal-y-bont a nai i Jodie a Ryan.

Mab bach, Jax a anwyd i Hollie Williams, 4 Maesyderi, Tal-y-bont ar Awst 1af ac yntau yn wyr cyntaf i mamgu, ( Margaret ) Dan y dderwen, Tal-y-bont.

Draw yn yr Almaen ganed trydydd mab, Dyfi Rhys, i Siona a Simon Baur, brawd bach i Ianto a Gruff ac wyr bach arall i Sandra a Patrick Laverty, Tal-y-bont.

Braf iawn oedd gweld y teulu yn mwynhau sioe Tal-y-bont.

Pob dymuniad da i'r holl deuluoedd.

**Priodas Hapus**
Ar 1 Gorffennaf yng Ngwesty'r Cliff, Aberteifi, cynhaliwyd priodas Gwyn Jones, Ger y Nant, Tal-y-bont â Catrin Eleri, Machynlleth. Pob dymuniad da i'r ddau.

**Penblwydd Arbennig**
Pen-blwydd hapus iawn i Nia Jones, Brynolwg , Bont-goch a ddathlodd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

**Brysiwch Wella**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Sion Pennant, Penygro, Bont-goch, a ddioddefodd anafiadau sylweddol yn dilyn damwain beic.

**Yn yr Ysbyty**
Da deall fod Jill West, White Windows, Tal-y-bont wedi gwella ar ôl bod yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Sheila Haynes, Tal-y-bont, sydd yn Ysbyty Bronglais ers rhai wythnosau – brysiwch adre.

**Wedi Dyweddîo**
Llongyfarchiadau i Orion Heart a Lianna V Evans, 3 Danycoed, Tal-y-bont ar eu dyweddïad.

Llongyfarchiadau hefyd i Keith Evans, Fflat yr Emporium, Tal-y-bont, ar ei ddyweddïad â Julie. Mae Keith newydd symud i fyw ati yn Nhremadog.

**Wyres fach**
Ganwyd merch fach, Efa Mair i Sion Hopkins a Gwennan Evans ac wyres gyntaf i Wil a Sue Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu.

**Côr Ysgol Penglais**
Bu Heledd Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont yn canu gyda chôr Ysgol Penglais yn Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen gan adrodd am ei phrofiad mewn cyfweliad ar y teledu yn dilyn y gystadleuaeth.


**FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN**

TE PRYNHAWN
NEUADD
PENRHYN-COCH
17 MEDI AM 2.30

Mynediad £3 oedolion
£1.50 plant




Cynhaliwyd bedydd Nela Hâf yng Nghapel Bethesda, Tynant ar y 21 Awst o dan law y Parch Richard Lewis. Cafwyd diwrnod bendigedig yng nghwmni teulu a ffrindiau.

**Newid Aelwyd**
Dymunwn yn dda i Mair Morgan, Aberceulan, Tal-y-bont gynt sydd wedi symud i fyw i Glyn Padarn, Llanbadarn. Mae'n chwith peidio cael sgwrs gyda Mair wrth iddi gerdded o amgylch y pentre.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn ag Ifan Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont a'r teulu ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith, Dai Owen, ym Mhontrhydfendigaid.

**Diolch**
Mae Cymdeithas Papur Pawb wedi derbyn rhodd hael at y coffrau gan Gylch Cinio Aberystwyth. Mae'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth i'r achos.

**Clun Newydd**
Braf gweld Lisa Tomos, Pentre-bach yn brasgamu hyd y lle wedi iddi gael clun newydd yn ddiweddar!

**Taith Celf a Chrefft Ceredigion**
Hyfryd oedd gweld gwaith arbennig gan Jon Evans, Hen Ysgol yr Eglwys, Bont-goch wrth iddo agor ei stiwdio fel rhan o'r Daith Celf a Chrefft Ceredigion. Mae Jon yn hapus i groesawu unrhyw un nad oedd yn gallu ymweld yn ystod pythefnos y daith celf. Gallwch wneud apwyntiad drwy ffonio 01970 832220 neu drwy fynd i'w wefan www.jonevansartist.co.uk

**Newydd Briodi**
Priodwyd Huw Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl â Megan Jones, Cei bach yng Nghilfachreda ar 20 Awst. Mae'r pâr priod wedi ymgartrefu ym Mhennant. Llongyfarchiadau i chi eich dau.



**Clerc yn ymddeol**
Mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangynfelyn ym mis Gorffennaf cyflwynwyd tusw o flodau i Gillian Jones ar ei hymddeoliad o swydd clerc y cyngor. Bu Gillian yn glerc am gyfnod o ugain mlynedd a dros y cyfnod hwnnw mae hi wedi gweld sawl cynghorydd lleol yn mynd a dod ac ambell i un yn aros am sbel! Fel rhan o'i swydd, bu rhaid iddi addasu ac egluro i'r cynghorwyr sawl gwaith am yr holl newidiadau a chanllawiau newydd a ddeuai i rym.

Wrth gau y cyfarfod, diolchodd Michelle James, y Cadeirydd, i Gillian am ei holl ymroddiad a'i gwaith dros y blynyddoedd.

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:58 pm Page 4

parhad o dudalen 1



*Teulu Cerrigcaranau yn fuddugol yn y Sioe Fawr*

# Sioeau ac Eisteddfod

Rhaid canmol y pwyllgor gweithgar a fu'n gyfrifol am yr holl drefniadau ac i'r stiwardiaid.

Ddechrau Awst cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion hir ddisgwyliedig. Roedd pentrefi'r ardal wedi'u haddurno gyda baneri lliwgar ac arwyddion i groesawu ymwelwyr i'r sir. Eisioes roedd y pwyllgor lleol gweithgar gweithgar, o dan arweiniad effeithiol y cadeirydd Bethan Davies, Dolclettwr, wedi codi swm sylweddol o arian tuag at yr Ŵyl. Targed ariannol yr ardal oedd £10,000 ond y cyfanswm terfynol oedd £11,830 - a mawr yw diolch y Trysorydd Ellen ap Gwyn i bawb am eu cefnogaeth hael. Dymuna'r cadeirydd '...ddiolch i bawb am eu holl haelioni a'u hamser yn ystod y misoedd diwethaf – braf oedd cael dod at ein gilydd a chymdeithasu.'

Cafwyd dechrau da i'r Ŵyl ar y nos Wener gyda pherfformiad gwefreiddiol o'r sioe gerdd 'Lloergan'. Roedd cysylltiadau lleol yn gryf yn y Sioe, gyda Sam Ebenezer , Maes y felin, Tal-y-bont a Lynwen, merch Anwen Howard, Stryd Birkenhead, Tal-y-bont yn chwarae'r prif rannau. Un o'r dawnswyr oedd Orion Heart, 3 Danycoed, Tal-y-bont, ac roedd un o gyn-ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont, Miriam Llwyd hefyd yn serennu. Roedd ambell aelod o gôr Lloergan a chôr yr Eisteddfod fu'n perfformio'n y Gymanfa hefyd o'r ardal hon.

Drwy'r wythnos bu unigolion hefyd yn gwirfoddoli, yn stiwardio, yn darlithio, yn beirniadu, yn barddoni, yn arwain gweithgareddau ac yn cystadlu gyda pharti llefaru a chôr.

Yn ystod yr wythnos, urddwyd tri o'r ardal hon i wisg werdd yr Orsedd, sef Delyth Llwyd Ifan a'i merch Esther a Robat Gruffydd (gweler yr atodiad lliw). Enillwyd y Fedal Ryddiaeth gan Sioned Erin Hughes sy'n aelod o staff Y Lolfa. Llongyfarchiadau iddi. Llongyfarchiadau hefyd i Gwmni Drama Licris Olsorts ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth Perfformio Drama Fer neu Waith Dyfeisedig, gyda Gweni King yn ennill tlws yr actor gorau.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

## Teyrnged

### Mair Eluned Evans
1933 - 2022



Ganwyd Mair Eluned Jones yn Minffordd, Tal-y-bont ac o fewn blwyddyn symudodd y teulu i Lwyn Onn, ac yma y magwyd hi gyda'i brodyr Defi a Iorwerth. Roedd ei hamser yn Ysgol Tal-y-bont o dan gysgod yr Ail Ryfel Byd a diddorol oedd clywed ei hanes am fywyd pentrefol dros y cyfnod. Roedd ganddi allu naturiol gyda ffigyrau felly does dim syndod mae fel Clerc Cyfrifon aeth Eluned i weithio ar ôl gadael Ysgol Ramadeg Ardwyn. Yn gyntaf aeth i siop ddillad Sonia's yn Aberystwyth, yna i swyddfa Astons, ac yn olaf i Awdurdod Datblygu'r Diwydiant Moch, lle y gwnaeth ffrindiau oes.

Priodwyd Alun ac Eluned gan WJ Gruffydd yng Nghapel Tabernacl yn 1957 a symudwyd i Faesyderi, lle bu'n gartref iddi am weddill ei hoes. Ganwyd Nia a Carwyn yn y '60au ac mae atgofion melys gan y ddau o blentyndod cariadus a dedwydd. Byddai'r ardd yn gyfoeth o gynnyrch ac roedd Eluned yn dal i gymryd diléit yn ei gardd - wrthi yn twtio a chwynnu hyd nes iddi ei chymryd yn sâl yn y gwanwyn.

Bydd sawl un yn cofio Eluned yn gweithio yn Central Stores gyda theulu'r diweddar John a Kathleen Richards ac yna Tony ac Anne. Siom anferth i'r teulu oedd colli Alun yn fuan ar ôl iddo ymddeol yn 1991 ac ymunodd a thîm labordy Gwyddorau Biolegol y Brifysgol am gyfnod, gan fwynhau'r gwaith a'r cyfeillgarwch.

Roedd gan Eluned sawl diddordeb. Hoffai wylio pob math o chwaraeon ar y teledu; roedd ei gwybodaeth ddaearyddol yn wych a fedrai droi ei llaw at unrhyw grefft llaw. Meddai ar lais canu hyfryd a chystadlodd mewn eisteddfodau lleol pan yn ifanc. Bu yn rhan weithgar o'i chymuned ac yn aelod o sawl sefydliad a chlwb dros y blynyddoedd. Bu Capel Nasareth yn rhan fawr o'i bywyd a gweddus iawn mae gwasanaeth angladdol Eluned oedd yr olaf yma cyn iddo gau ei ddrysau.

Ni fu Eluned yn un i chwilio am amlygrwydd ond roedd mor siriol, caredig a pharod ei chymwynas yn ei ffordd dawel ei hun. Byddai croeso cynnes ar yr aelwyd a chacen yn y tun bob amser. Diolch amdani - merch ei milltir sgwâr.

"Nid oes mynwent i rinweddau, nid oes bedd i enw da".

*N. R.*

## Cymorth Cristnogol

Ar ôl dwy flynedd o fethu casglu at Gymorth Cristnogol, braf oedd gweld y casglwyr yn mynd o gwmpas unwaith yn rhagor a llawer yn falch o'u gweld yn galw.

Ni chasglwyd ym Maesyderi, Penlôn a'r Ffald, gwaelod y pentre nac yn ardal Cynnullmawr eleni.

Casglwyd fel a ganlyn:
Pentref Tal-y-bont (Helen Jones) - £56.37
Ardal Bontgoch (Geraint Evans) - £91.96
Pensarn a Chwmceulan (Gwilym a Margaret Jenkins) - £129.30
Stryd y Capel a Maesyfelin (Fal Jenkins) – £203.65
Parsel Henllys (Wendy Watkin a Janet Jones) - £147.50
Cyfanswm £628.78

Ar ran y pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb am eich rhoddion hael ac i'r casglwyr a fu'n eu derbyn.

Mae Lisa Tomos yn dymuno gadael y tîm a diolchwn iddi am ei help dros y blynyddoedd.

*Janet Jones*

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:58 pm Page 5

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch



Daeth ein tymor i ben gydag ymweliad â Chanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar 17 Mehefin. Wedi mwynhau cinio blasus cawsom ein tywys o amgylch arddangosfa gelf drawiadol yn yr oriel yno a braf oedd cael arbenigwraig i roi cefndir a hanes y gweithiau celf.

Yn dilyn taith gerdded noddedig yn ardal Aberaeron ar 25 Mehefin trosglwyddwyd cyfraniad ariannol o'r gangen i Apêl Uned Cemo Ysbyty Bronglais.

Bu nifer o'r aelodau'n gwirfoddoli ar stondin y mudiad yn Eisteddfod Ceredigion ac eraill yn perfformio ar lwyfan y maes gyda'r Côr Hwyliog dan arweiniad Jill Lewis ein Llywydd Cenedlaethol.

Gyda'r tymor newydd yn prysur agosáu, y mae rhaglen ddiddorol wedi ei pharatoi felly beth am ymuno â ni ar y trydydd nos Lun yn y mis yn ystafell waelod y Neuadd Goffa – cewch groeso cynnes.

Os am fwy o fanylion am y gangen cysylltwch â Fal Jenkins 01970-832560 / jenkinsfal@gmail.com

# Gwobr Cymraeg yn y Cartref



Llongyfarchion mawr iawn i Cat Roll a'i theulu, Tal-y-bont, sydd wedi derbyn gwobr am eu hymdrechion i ddysgu Cymraeg. Cyflwynwyd gwobr 'Cymraeg yn y Cartref' mewn seremoni ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddydd Mawrth 2 Awst.

Mae Cat wedi bod yn dysgu Cymraeg ers dwy flynedd, ac mae'r teulu cyfan wedi ymuno yn yr ymdrech. Mae ei gŵr Jon hefyd yn dysgu, ac mae nhw'n dysgu'r iaith i'w plant - mab a dwy ferch- sydd rhwng 6 a 10 oed. Mae'r tri yn derbyn eu haddysg gartref.

Meddai Cat Roll: "Mae'n teimlo'n dda iawn i ni fel teulu i fedru siarad mwy a mwy o iaith hardd y wlad hardd yr ydym yn byw ynddi. Mae Zoe Pettinger yn diwtor mor wych, a dw i'n teimlo ein bod yn gwneud cymaint o gynnydd gyda hi. Rydym wedi gwerthfawrogi'r cyrsiau Dysgu Cymraeg yn fawr iawn, ac rydym wedi eu cymeradwyo'n eang i eraill sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg."

# Priodasau



Pob dymuniad da i Lauren Southgate a Ray Clare, Tre'r ddôl, ar eu priodas yn Glyngynwydd, Llanidloes ar 9 Gorffennaf.



Llongyfarchiadau i Dwynwen Morgan, Alltgoch, a Dylan Llewelyn, a briodwyd ym Mhlas Nanteos ar 18 Mehefin. Maent wedi ymgartrefu ym Mhwllheli.

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanyrafon
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

# Yr Urdd yn Gant Oed

## Hanes Adran yr Urdd o fewn Ysgol Tal-y-bont

Yn fuan ar ôl cychwyn fy swydd yn yr ysgol yn Ionawr 1968, gofynnwyd i mi a fuaswn yn fodlon dechrau adran yr Urdd yn yr ysgol. Bodlonais innau a phenderfynwyd y byddem yn cwrdd am awr ar ôl oriau'r ysgol ar Nos Iau. Cwis, helfa drysor, caneuon yr Urdd neu ymweliad gan hwn a hon o'r gymuned oedd y ddarpariaeth arferol. Ym mis Mawrth, trefnwyd fynd ar daith gerdded heibio i Fedd Taliesin ac yna i lawr i fferm Glan'rafon rhyw brynhawn Sadwrn. Wedi cyrraedd y topie, er mawr ofid i un o'r plant, sylwodd fy mod yn gwisgo siwmper goch, ac o'm mlaen 'roedd teirw yn ei dyb e. Bu'n ceisio ei orau i gael i mi ymadael â'r dilledyn a oedd yn siŵr o dramgwyddo'r "teirw". Sylwais ar ei wên ar ól iddo sylweddoli bod yr athrawes newydd ddim mor ddiniwed a'i golwg. Ar ddiwedd y tymor cyntaf, aethom ar wibdaith i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Cawsom amser difyr iawn wrth y gwahanol weithgareddau ond mawr oedd y rhialtwch yn y bws pan welwyd ymwelwyr yn ceisio refyrsio'r car yn ffrwcslyd o gwrdd á anferth o fws mawr ar ffordd mor gul. Cymaint oedd dryswch y gyrrwr fel yr ai yn llythrennol o un perth i'r berth ar yr ochr arall. Dwy ddim yn meddwl bod chwerthin croch y plant wedi bod o help iddo.


*Mrs Jones gyda'r cotiau*

Teg nodi, nad fi yn unig fu yn cwrdd â'r plant ar nos Iau. Mae'n niolch yn fawr i'r athrawon eraill ac i'r ardalwyr a fuodd yn gymorth. Gyda phenodiad Carol (Ainsleigh) Davies ar y staff cawsom ddechrau cystadlu. Mae gan Carol lais cyfoethog ac 'roedd yn hen gyfarwydd â chystadlu. Roedd yn brofiad newydd i nifer ond buan dechreuwyd cyfarwyddo â theithio o Eisteddfod Cylch i Eisteddfod Sír. Y pryd hwnnw cawsom arbenigrwydd Eirwen Hughes i gyfeilio i'r plant.

Yn niwedd y '70au, apwyntiwyd Geraint Thomas yn brifathro i'r ysgol. Dyma berson arall a oedd yn berchen ar lais cyfoethog ac yn gyfarwydd â'r llwyfan. Dyma'r cyfnod y dechreuwyd mynychu Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd, gyda tipyn o lwyddiant. Cawsom y wobr gyntaf yn Abergele (1980), Aberafan ('83), y Dre Newydd ('88) a'r ail wobr yng Nghastell Newydd Emlyn ('81). Enillwyd hefyd y Tlws Llenyddol yn eisteddfod Castell Newydd Emlyn ('81). Deuai'r cyfle i gystadlu hefyd yn Steddfod Syr David James ym Mhontrhydfendigaid. Enillodd y parti unsain yno ynghyd â sawl grwp offerynnol. Erbyn hyn, roeddem yn cystadlu mewn partïon cyd-adrodd gan gyfarwyddyd Christine Charlton, y dawnsio gwerin ( Anwylyd Evans) a gwaith gwnïo ( Anwylyd Evans, Christine Charlton a llawer iawn o fewnbwn gan y diweddar Dilys Morgan). Roedd Vera Lloyd yn gyfeilydd ffyddlon i'r côr yr adeg hynny.

Cawsom nifer o brofiadau difyr iawn fel plant ac athrawon. Cofio'r eisteddfodau gwlyb a'r mwdlyd, y teuluoedd hynny yr oedd y plant wedi sefyll yn eu cartrefi dros nos. Roedd eu caredigrwydd yn hael, gan fynd a'r plant allan am dro i'r ffair neu glan y môr ar ôl swper, rhoi llwyth o fwyd iddynt i fynd gyda nhw i'r eisteddfod ac yn fynych iawn yn dod i holi " how did our children do?" ar ôl i'n plant ni gystadlu. Halen y ddaear. Cawsom brofiadau difyr fel athrawon hefyd. Cario


*Grŵp dawnsio gwerin yr ysgol, tua 1982*

bagiau llawn o ddillad glân, sanau, polish, ar gyfer paratoi'r plant i edrych yn drwsiadus i'r llwyfan yng Nghastell Newydd Emlyn. 'Steddfod a oedd yn ddiarhebol o fwdlyd. Pan oedd y plant yn cysgu gyda theuluoedd yr oeddem ni yn mynd i'w casglu fore trannoeth yn y bws o gwmpas yr ardal. Roedd yn ofynnol cael y plant i rhyw ganolfan neu ysgol yn barod ar gyfer y rhagbrofion a ddigwyddai'n fore iawn. Mawr oedd braw yr athrawon pan gurwyd ar un drws er mwyn cludo'r plant i'r rhagbrawf. Daethant i'n cwrdd yn eu dillad nos heb baratoi dim at bacio eu dillad nac ychwaith wisgo yn barod at ganu.

Roedd ganddo ni yr athrawon ein dyletswyddau wedi cyrraedd maes yr Eisteddfod. Byddai Anwylyd Evans yn gwibio o gwmpas yn chwilio am le o'r neilltu er mwyn i'r côr/parti gael ymarfer cyn y rhagbrawf, tra byddai Christine Charlton yn cadw llygad ar y rhagbrofion . A minnau , wel y fi oedd yn edrych ar ôl gotiau'r plant, a'r bagiau a oedd yn dal yr esgidiau sbâr, y sanau a'r polish a'r bocs cymorth cyntaf.

Buom yn ffodus yn dilyn hyn o gael Falyri Jenkins ar y staff. Mae hithau wedi bod yn hyfforddi corau, ac unigolion ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd yn yr ysgol. Mae plant Tal-y-bont wedi elwa o gael athrawon medrus ar hyd y blynyddoedd. Bu Fal hefyd yn trefnu gweithgareddau'r Urdd ar Nos Iau ac yn cadw'r traddodiad a ddechreuwyd ar ddiwedd y '60au.

Wrth gwrs, cafodd y plant fynychu gala nofio yr Urdd yn lleol yn flynyddol a'r mabolgampau a drefnwyd yn ganolog yn y Cylch. Bu'r rhieni yn ganolog i'r holl drefniadau; bob amser yn barod i fynd a'u plant nhw ac yn fynych, plant teuluoedd eraill i'r gwahanol weithgareddau.

Bach iawn a feddyliais wrth gytuno dechrau adran yr Urdd yr ysgol y byddai'n golygu teithio ledled Cymru a chael cymaint o brofiadau. Do bu llawer tro trwstan ac amseroedd difyr hefyd. Gobeithio bod y plant wedi mwynhau 'r cyfnod.

*Diana Jones*

(O.N. Diolch i Arwyn Jones am anfon enwau rhai o gystadleuwyr yr Aelwyd yn y llun a ymddangosodd yn rhifyn Mehefin: sef Maria, Delyth, Mair, Esther, Arwyn, Iwan, Louisa a Harri James)

# Gwasanaeth Dadgorffori



Achlysur trist iawn oedd y Gwasanaeth Dadgorffori a gynhaliwyd ar 19 Mehefin yng nghapel Nasareth, Tal-y-bont. Daeth aelodau'r capel ynghyd, yn ogystal ag aelodau capeli eraill y cylch i dystio cau'r capel am y tro olaf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y gweinidog y Parch. Watcyn James, a chymerwyd rhan gan y cyn-weinidog y Parch Wyn Morris a gweinidog Bethel, y Parch. Gwilym Tudur. Bu dwy aelod ffyddlon ac organyddion y capel, Nia Richards a Janet Jones, yn hel atgofion difyr am eu profiadau yn y capel dros y blynyddoedd. Yn bresennol oedd Mrs Bronwen Morgan yn cynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru a chyflwynwyd Beibl y capel iddi yn unol â threfn yr enwad.

Bydd gan yr enwad y cyfrifoldeb bellach am fynwent y capel, y tŷ capel, a'r adeilad a'i gynnwys, gan gynnwys yr organ a osodwyd yn ei lle yn 1906 pan adferwyd ycapel yn 1906. Mae'n debyg i'r organ gostio £280, swm sylweddol iawn ar y pryd.

Tra oedd pedwar addoldy yn cynnal gwasanaethau yn Nhal-y-bont yn 1990, dim ond un sydd ar ôl erbyn hyn, sef Capel Bethel.


**Grant Mayhew Ltd**
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Ffrydwyr, chwaraewyr gemau & a gweithwyr caled o adref

ADOLYGIADAU ★★★★½ RHAGOROL

Carbon Neutral Britain

I gael cyswllt di-rwystr, beth am gael band-eang ffeibr gwibgyswllt yng Ngheredigion heddiw!



Hyd at
1Gbps o £19.99*
COFRESTRWCH HEDDIW MAE'N RHAD AC AM DDIM A DOES DIM RHWYMEDIGAETH

"Wnaethon ni erioed feddwl y bydden ni'n cael ceblau ffeibr yma i ddweud y gwir. Mae wedi bod o fudd i'r teulu cyfan. Dyma'r dibynadwyedd yr oedden ni ei angen."
Anne James
Ambleston, Pembrokeshire

broadwaybroadband.co.uk

BROADWAY BROADBAND
Pwy bynnag, ble bynnag - rydyn ni'n cysylltu cymunedau

*Mae T&A yn berthnasol, gweler y wefan am fanylion llawn. Cyflymder cyfartalog hyd at 900Mbps gyda phecyn 1Gbps. Pris fesul mis calendr am gontract 12 mis. Cwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yw Broadway Partners Ltd (yn masnachu fel Broadway Broadband), ei rhif cwmni yw 07702073, ac mae ei swyddfa gofrestredig yn Tempest Building, Tithebarn Street, Lerpwl L2 2DT



*Croesawu'r Eisteddfod*


*Hwyl yn Llangrannog*


*Diwrnod y mabolgampau*



*Blwyddyn 6 yn gwlychu*



*Aelodau'r tîm hoci*


*Hedydd a Siskin*


*Adeiladu'r robot*


*Cynrychiolwyr yr ysgol ym mabolgampau'r cylch*



*Y tîm rygbi*

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:58 pm Page 9

# Ysgol Tal-y-bont




*Rhys Norrington-Davies*

## Ymwelydd Arbennig

Cyn diwedd Tymor yr Haf fe wnaeth pêl-droediwr Cymru, Rhys Norrington-Davies alw draw i'n gweld. Fel y gallwch ddychmygu roedd y plant a'r oedolion wedi gwirioni yn ei gwmni. Diolch yn fawr i Rhys am y sesiwn hyfforddi annisgwyl ac am ei amynedd yn ateb yr holl gwestiynau, yn llofnodi crysau ac yn tynnu llun gyda phawb. Rydym yn croesi bysedd y bydd yng ngharfan Cymru ar gyfer Cwpan y Byd – pob lwc Rhys.

## Gweithgareddau Diwedd Blwyddyn Gwibdaith

Roedd hi'n hyfryd gallu mynd ar wibdaith yn ystod wythnosau olaf y tymor i wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Dyma'r tro cyntaf i'r plant lleiaf gael mynd ar drip ers amser hir oherwydd Covid! Diolch yn fawr i holl staff y Gwersyll am drefnu amrywiaeth o weithgareddau ffantastig a chynnig cymaint o brofiadau newydd! Diwrnod i'w gofio i bawb.

## Ysgol Iach

Yn ystod wythnosau diwethaf Tymor yr Haf cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm am eu hymdrechion arbennig yn ystod y prynhawn a da iawn Leri am fod yn enillwyr teilwng eleni. Diolch yn fawr i Anthony Jarrett am y casgliad o ffotograffau hyfryd.

Yn dilyn hynny cafwyd diwrnod gwych o gystadlu yn erbyn ysgolion cylch Aberystwyth. ar Gaeau Ysgol Penweddig. Da iawn i'r tîm am ymdrech 100%, doedd dim rhyfedd fod pawb wedi blino'n lân erbyn y diwedd.

Bu timau'r ysgol hefyd yn cystadlu'n frwd yn erbyn ysgolion eraill mewn pencampwriaethau hoci a rygbi. Diolch yn fawr i'r Urdd a chriw Ceredigion Actif am drefnu. Mae'n braf iawn gweld Ysgol Tal-y-bont yn cymryd rhan mewn cymaint o wahanol gystadlaethau yn ddiweddar.

## Ysgol Greadigol

Cynhaliwyd prynhawn arbennig yn yr ysgol er mwyn rhoi llwyfan i holl ddisgyblion yr ysgol gael canu a chwarae offerynnau. Cafwyd nifer o eitemau graenus iawn gan y plant. Diolch o galon i Mrs Fal Jenkins am bob cymorth unwaith eto ac am ddysgu tôn gron i ni gael croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Dregaron. Diolch hefyd i Wasg y Lolfa am y tystysgrifau hyfryd.

Ac wrth sôn am Eisteddfod Tregaron, gobeithio eich bod yn cytuno bod blaen yr ysgol yn drych yn wych dros wythnosau'r haf. Diolch yn fawr i'r rhieni a'r staff ddaeth atom i'n helpu. Rydym yn gwerthfawrogi bob cymorth yn fawr.



*Prynhawn o berfformio*

Cafwyd perfformiad arbennig gan gôr disgyblion ysgolion cynradd Ceredigion i gyfarch enillydd gwobr Daniel Owen yn ystod yr wythnos. Diolch i bawb am drefnu ac i'r criw o Dal-y-bont am gynrychioli'r ysgol. Roeddech chi'n wych!

Cafwyd gweithdy gwahanol a hynod ddiddorol cyn diwedd y tymor dan arweiniad y tenor enwog Huw Ynyr. Roedd yr ymweliad yn gyfle i hybu cerddoriaeth opera ymysg y disgyblion ac roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar y gerddoriaeth, dysgu termau newydd a siarad Eidaleg. Diolch hefyd am y jôcs doniol!

Diolch yn fawr iawn i Tally o Brifysgol Aberystwyth am ddod i gynnal gweithdy ar robotiaid i flwyddyn 5 a 6 bore 'ma. Am brofiad ardderchog i'r plant gael adeiladu robotiaid yn yr ysgol – gwych.

## Blwyddyn 6

Yn dilyn llwyddiant ysgubol (!) chwarae gyda gynnau dŵr llynedd, dymuniad disgyblion Blwyddyn 6 eleni eto oedd gwlychu! Diolch yn fawr i'r staff am drefnu. Pob hwyl i chi yn y dyfodol a diolch yn fawr i chi gyd am eich cyfraniad i'r ysgol. Cofiwch alw draw i'n gweld yn fuan.

## Ysgol y Gymuned

Yn ystod y cyfnod yma cynhaliwyd ein barbeciw blynyddol, gyda phlant Blwyddyn 6 yn serennu wrth gynnal cyngerdd hyfryd yn neuadd yr ysgol. Diolch i bawb am gefnogi ac yn enwedig i aelodau o'r Gymdeithas Rieni am yr holl waith paratoi a Mrs Jones y gegin a'r staff am bob cymorth ar y noson hefyd.

## Staffio

Ar ddiwedd Tymor yr Haf cawsom gyfle i ddiolch i Miss Buddug Williams am ei chyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Gobeithio eich bod wedi mwynhau bod yma gyda ni yn Ysgol Tal-y-bont a phob hwyl i chi yn y dyfodol. Bydd hi'n rhyfedd iawn yma ym mis Medi ond cofiwch ddod nol i'n gweld yn fuan.

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:58 pm Page 10

# Cletwr

Rydyn ni'n byw mewn "cyfnod diddorol". Mae goroesiad pob busnes a chartref yng Nghymru yn cael ei fygwth gan gynnydd seryddol ym mhris ynni, ac mae'r 'llywodraeth' yn San Steffan i'w gweld yn ddigon bodlon gadael i hyn ddigwydd. (Peidiwch â phoeni, dydw i ddim yn mynd i fod yn wleidyddol, mae Cletwr yn ddi-blaid wleidyddol. Wedi'r cyfan, fe wnaethom wahodd Neil Hamilton i agoriad yr adeilad newydd!). Mae llawer o fusnesau bach eisoes yn gwneud penderfyniad i gau, gan na allant barhau â chynnydd deg gwaith mewn prisiau ynni. Mae Cletwr yn wynebu'r un broblem, ond rydym yn gwybod pa mor bwysig yw'r siop a'r caffi yn lleol, felly byddwn (rhywsut) yn aros ar agor ac yn gwasanaethu ein cymuned orau y gallwn. Byddwn yn addasu i'r amgylchiadau newydd. Mae Chloe a'i thîm yn edrych ar yr opsiynau sydd gennym i leihau ein defnydd o ynni, a byddwn yn rhoi gwybod i bobl sut y bydd pethau'n newid unwaith y byddwn wedi gwneud penderfyniadau. Ar hyn o bryd mae'n debygol y byddwn yn lleihau ein hystod o nwyddau wedi'u hoeri a'u rhewi, fel y gallwn ddiffodd rhai o'r oergelloedd. Mae bwydlen y caffi yn debygol o newid hefyd. Ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld gofyn i'n cwsmeriaid ddod â'u fflachlampau eu hunain – bydd y goleuadau'n aros ymlaen yn Cletwr (wel, rhai ohonyn nhw, o leiaf).

Ond heb os, fe fydd yna newidiadau eraill. Mae'n bosibl iawn y bydd rhai o'n cyflenwyr yn cau, efallai y bydd yn rhaid i eraill gynyddu eu prisiau'n sylweddol, a bydd angen i ni wrth gwrs adlewyrchu'r codiadau hynny yn y prisiau a godwn, ond dim ond pan fydd yn rhaid inni wneud hynny. Byddwn yn parhau i geisio cynnig cynnyrch sylfaenol am brisiau fforddiadwy, ond a gaf i ofyn i bawb ddeall hyn. Os nad yw eich hoff gaws ar gael neu wedi dyblu yn y pris, bydd hynny oherwydd ei fod wedi gorfod. Bydd y problemau presennol yn mynd heibio, fel y cyfyngiadau pandemig, ac rydym yn benderfynol o sicrhau unwaith y bydd y sefyllfa hon wedi dod i ben - pryd bynnag y bydd hynny - y bydd Cletwr yma o hyd, yn helpu ein cymuned ac yn barod i dyfu'n ôl yn fwy ac yn well.

Ac ar nodyn llai apocalyptaidd: mae gennym nifer o staff newydd – gweler fy erthygl arall am fanylion. Maen nhw'n setlo i mewn, ond sut amser i ddechrau mewn swydd newydd! Byddwch yn amyneddgar gyda nhw!

Gan ei bod yn haf, nid ydym wedi bod yn cynnal llawer o ddigwyddiadau, ond bydd hyn yn newid dros y mis neu ddau nesaf. Mae Rachel yn brysur yn trefnu rhaglen lawn ar gyfer yr hydref a'r gaeaf – cadwch lygad ar ein tudalennau Facebook a Twitter am fanylion.

Nodyn i'ch atgoffa: (yn amodol ar gostau ynni) rydym yn dal i stocio'r bara surdoes bendigedig o Rye and Roses. Mae'n cael ei gyflwyno'n ffres ar ddydd Gwener ac mae'n mynd yn gyflym. Mae'r rholiau sinamon i farw drostynt!

## Ffarwel a S'mae

Daeth cyfnod pwysig yn Cletwr i ben yn ddiweddar gydag ymadawiad Karen Evans, ein rheolwr ers i ni agor yn 2013. Mae'n amhosib cydnabod ei chyfraniad yn iawn mewn erthygl fer, ond fe geisiaf. Daeth Karen atom gyda chefndir cryf mewn manwerthu, ond dim profiad o fusnes cymunedol o gwbl! Dysgodd yn gyflym serch hynny. Bu ei chefndir manwerthu yn gymorth i sefydlu'r hen "Siop Cynfelyn" ar sylfaen gadarn o'r dechrau, a'i galluogi i ehangu i'r graddau y mae. Dysgodd sut i reoli nid yn unig tîm cynyddol o staff yn y siop a'r caffi, ond hefyd sut i drin cymhlethdodau tîm mawr o wirfoddolwyr. O safbwynt cwsmer, fe wnaeth y cyfan ymddangos yn ddiymdrech, ond mewn gwirionedd roedd llawer iawn o ymdrech y tu ôl i'r llenni. Un peth mawr i'w gofio yw symud i mewn i'r adeilad newydd. Bu Karen yn ymwneud yn fawr â chynllunio a dylunio'r adeilad newydd, a llwyddodd i ddal ati gyda busnes fel arfer drwy'r anhrefn ysgafn o weithio ar safle adeiladu am naw mis! A phan wnaethpwyd hynny, llwyddodd i fynd o'r hen siop i'r newydd, a dim ond am dridiau y caeodd. Anhygoel.



*Karen Evans*


*Chloe Birds*

Wedi prynu tŷ yn Nhre'r Ddôl i fod yn agos i'r busnes, doedd Karen byth oddi ar ddyletswydd mewn gwirionedd. Bob amser yn barod i ymateb i broblem frys hyd yn oed ar ddiwrnodau i ffwrdd.

Mae Karen wedi bod yn un o gonglfeini Cletwr. Yn amlwg, mae llawer, llawer o bobl wedi cyfrannu at ddatblygiad ein hyb cymunedol, ond rwy'n siŵr y byddent i gyd yn cytuno, heb ymroddiad, syniadau, arweinyddiaeth a chyfeillgarwch Karen y byddem yn sefydliad tlotach.

Beth sydd nesaf ym mywyd Karen? Pwy all ddweud? Yn y tymor byr bydd hi a'i merch Rhoswen yn cymryd seibiant haeddiannol – i ffwrdd â nhw i'r Alban yn eu camperfan. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae hi wedi bod yn gweithio'n rhan-amser i Sefydliad Plunkett fel ymgynghorydd, yn helpu busnesau cymunedol newydd eraill sydd newydd ddechrau, a bydd hyn yn parhau. Bydd yn parhau i fod yn rhan o dîm Cletwr am gyfnod gan y bydd yn helpu gyda'r gyflogres ac ychydig o dasgau eraill am gyfnod. Yn amlwg bydd hi hefyd yn dal i alw i mewn am ei siopa, a bydd hi bob amser yn rhan o deulu Cletwr.

## A Helo

Mae Karen wedi mynd, ond mae Chloe Birds wedi cyrraedd. Cymerodd Chloe yr awenau fel y rheolwr busnes newydd ddiwedd mis Gorffennaf, ac mae ar gromlin dysgu cyflym. Mae ganddi eisoes lawer o syniadau am ddyfodol y busnes, bach a mawr, a bydd y newidiadau hyn yn dod i rym yn raddol dros y misoedd nesaf. Mae hi braidd wedi cael ei thaflu i mewn i'r pen dwfn gyda'r codiadau ym mhris ynni, ond mae gan y Bwrdd bob hyder ynddi!

Symudodd Chloe i'r ardal yn 2009 i astudio yn y Brifysgol. Mae hi bellach yn byw yn Nhaliesin gyda Robbie (y postmon) a'i phlant Freya a Brân. Cyn gweithio i Cletwr, bu'n gweithio am gyfnod yn Davmor, ac yn Drysorydd Cylch Chwarae Taliesin a Chylch Meithrin Talybont. Mae hi wedi ymrwymo'n fawr i fentrau cymunedol. Mae hi'n dysgu Cymraeg, a heb os bydd hi'n gwella'n fawr os byddwn ni i gyd yn ei helpu i ymarfer!

Ac mae gan Chloe lawer o wynebau newydd ar ei thîm. Rydym ni wedi ailstrwythuro ychydig fel bod Aaron bellach yn Rheolwr Siop, a Lauren sy'n rheoli'r caffi a'r gegin, gyda Chloe yn rheoli'r busnes yn gyffredinol. Mae Kim wedi ymuno â ni fel cynorthwyydd newydd yn y siop, a Hanna fel cydlynydd y caffi. Mae Amy a Chris wedi cymryd lle Robyn a Becky yn y caffi. Pob hwyl iddyn nhw i gyd a gobeithio y byddan nhw i gyd yn cael amser hir a phleserus yn Cletwr.



*Hanna*



*Kim*

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:59 pm Page 11



# Penigamp

Hyd yn hyn eleni, mae Dewi Jenkins, Tŷ'n Graig, Tal-y-bont wedi dod yn gyntaf mewn dros 30 o Gystadlaethau Agored Treialon Cwn Defaid gyda'i gŵn Jock, Clwyd Bob, Tŷ'n Graig Cadi a Tŷ'n Graig Meg. Diwedd Awst treuliodd dridiau yn Hwlffordd yn cystadlu am le yn nhîm Cymru a bu'n llwyddiannus. Bydd Dewi a'i gi Jock a gweddill tîm Cymru yn teithio i Swydd Efrog ar 10 Medi i gystadlu yn y Treialon Cŵn Defaid yno.

Llongyfarchiadau i ti Dewi nid yn unig am dy lwyddiannau ym myd hyfforddi a chystadlu cŵn defaid ond hefyd am dy gyfraniad diddorol a naturiol ar y rhaglen deledu 'The World's Most Expensive Sheepdogs'.

# Treialon Cŵn Defaid



Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont ddechrau Awst a dyma Elgan Evans yn cyflwyno y wobr i Ynyr Siencyn, Tanrallt, am ennill y gystadleuaeth Dull De Cymru.




*Cyflwyno sieciau'r canu carolau i'r Ambiwlans Awyr a ChFfI Ceredigion*

# CFfI Tal-y-bont

Daeth y flwyddyn i ben ar nodyn uchel wrth i nifer o aelodau'r clwb gymryd rhan yng nghystadlaethau'r Rali a gynhalwyd eleni yn Llanwenog ar ddiwedd Mai. Llongyfarchiadau a diolch i bawb am gystadlu; cawsom lawer o hwyl yn paratoi at y cystadlu ac ar ddiwrnod y Rali yn ogystal ag yn Nawns y Rali. Enillodd Sara Jenkins gwpan am y marciau uchaf am farnu stoc a Bedwyr Siencyn gwpan am drin gwlân.

Ar 26 Gorffennaf cawsom ein Cyfarfod Blynyddol a Barbaciw y Clwb ar fferm Llety Ifan Hen. Cyflwynwyd sieciau o £700.52 yr un i CFfI Ceredigion ac i'r Ambiwlans Awyr.

Ar ddydd Sadwrn 27 Awst, bu nifer o aelodau'r Clwb yn cystadlu a stiwardio yn Sioe Tal-y-bont. Yna, wedi llawer o baratoi, cynhaliwyd cystadleuaeth Cneifio Cyflym yn Nhanrallt Tal-y-bont. Yr oedd yn noson lwyddiannus iawn a diolch i holl aelodau'r clwb a fu'n stwardio, cystadlu a helpu. Bydd rhan o elw'r noson yn mynd i gefnogi ymdrechion Côr Machynlleth 'Le Tour de Cor' at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Dyma rai o'r enillwyr:
**Adran Iau:**
1af Elgan Roberts, 2il Goronwy Williams, 3ydd Bedwyr Siencyn
**Adran Canol:**
1af Ioan Williams, 2il Dafydd Roberts, 3ydd Deio Williams
**Adran Hŷn:**
1af Gwion Evans, Tanllan, 2il Huw Jones, 3ydd Shaun Fairclough
**Feteran:**
1af Gerallt Evans, 2il Dafydd Jenkins, 3ydd Phil George
**Agored:**
1af Gethin Lewis, 2il Elgan Jones, 3yfdd Gwion Evans
Talybont v Pennal: 1af Pennal, 2il Talybont.

Bydd y Clwb yn ail ddechrau fis yma yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Fawrth yn wythnosol. Bydd rhagor o wybodaeth a manylion am y gweithgareddau i'w gweld yn fuan ar dudalen y Clwb ar y cyfryngau cymdeithasol. 'Rydym yn edrych mlaen at groesawu aelodau hen a newydd i'r clwb. Hoffem fel clwb ddiolch i bawb yn yr ardal am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.
*Macsen*




*Hen law ar y cneifio: Dafydd Tanrallt*

pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:59 pm Page 12

# Yn Naturiol



**Dyma gychwyn ar gyfres newydd o ysgrifau yn Papur Pawb a fydd yn trafod agweddau amrywiol o fywyd cefn gwlad sy'n berthnasol i'r ardal hon.**

**Byddwn yn edrych ar feysydd fel yr amgylchedd, yr hinsawdd, byd natur, ac amaethyddiaeth, gan ganolbwyntio yn bennaf ar ddatblygiadau newydd diddorol.**

**Y tro hwn fe fuom draw i weld Hywel Williams, Cynnull Mawr.**

Sawl un ohonoch chi'r darllenwyr sydd â rhestr o bethau arbennig yr hoffech eu gwneud, weld neu eu cyflawni tybed? Wel, roedd gan y ffermwr lleol, Hywel Williams, Cynnull Mawr hefyd ei restr bersonol ac eleni fe wireddodd un o'i ddymuniadau sef creu dôl o flodau gwylltion ar dir y fferm.

Gan ei fod bellach wedi ryw hanner ymddeol, golygai hyn fod ganddo ychydig o amser sbâr felly dechreuodd ar y gwaith ym Medi 2021 drwy ffensio darn o'r cae, troi'r tir ac yna ei rolio. Roedd yn rhaid gadael y tir i setlo am rai wythnosau cyn gwasgaru hadau 30 math o flodau gwylltion yn gymysg â blawd.

A dechrau'r haf eleni, roedd y cae yn llawn o flodau o bob lliw. Cymaint oedd llwyddiant ei arbrawf fel y daeth y darlledwr Gerallt Pennant draw i Gynnull Mawr i wneud eitem ar gyfer y rhaglen Heno gan sicrhau fod eraill dros Gymru a thu hwnt hefyd yn gallu gwerthfawrogi'r olygfa odidog.

Pleser annisgwyl a gafodd Hywel un diwrnod oedd dod ar draws teulu o sgwarnogod yn y ddôl flodau, creadur nad oedd wedi ei weld ers hanner canrif!

A'r wythnos ddiwethaf, ar 1 Medi dechreuodd Hywel baratoi darn arall o dir sy'n arwain at y ffermdy er mwyn plannu rhagor o flodau gwyllton.

Felly, edrychwn ymlaen i haf 2023 i gael gwerthfawrogi ffrwyth ei lafur gan ddiolch yn gynnes iddo am ei weledigaeth.

## Caru Gwenyn

Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi bod Cletwr wedi llwyddo yn ei gais i adnewyddu ei statws Caru Gwenyn! Fydd ddim rhaid i ni wneud cais eto gan fod y statws bellach yn barhaol ond wrth gwrs byddwn ni'n dal i wneud ein gorau dros ein pryfed peillio.

Os oes gynnoch chi ddiddordeb yng Nghynllun Caru Gwenyn ar gyfer eich grŵp cymunedol/ysgol/addoldy/pentref, croeso i chi gysylltu â fi ar gwrach479@aol.com a galla i egluro mwy wrthoch chi. Mae'n ffordd wych o helpu pryfed peillio a natur yn gyffredinol a chael hwyl wrth wneud.

*Siân Saunders*



Elgan a Rhydian Evans Tynant, Talybont yn derbyn tlws ar ran y teulu yn dilyn ennill y gilwobr am y byrnau mawr gyda Ffederasiwn Tir Glas Cymru yn y cinio blynyddol yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, ym mis Gorffennaf. Hefyd yn y llun mae Martin Griffiths, ysgrifennydd cangen Aberystwyth sydd hefyd yn Gadeirydd Tir Glas Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

## Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Papur Pawb

Daeth criw da at ei gilydd i Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar y 29 Mehefin a diolchwyd i olygyddion y mis, y dylunwyr, y gohebyddion, y dosbarthwyr a'r cyfranwyr eraill am sicrhau bod deg rhifyn yn ôl ein harfer wedi ymddangos yn ystod y flwyddyn.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2022-23:
Cadeirydd: **Catrin M S Davies**
Is-gadeirydd: **Lisa Tomos**
Ysgrifennydd: **Rhian Evans**
Trysorydd: **Rebecca Williams**
Golygydd Cyffredinol: **Gwyn Jenkins**

Gan fod sefyllfa ariannol y gymdeithas yn iach ar hyn o bryd cytunwyd i gyhoeddi'r papur mewn lliw llawn o hyn allan fydd yn garreg filltir bwysig yn hanes y papur.

Mae tua 40 o bobl yn cyfrannu mewn rhyw fodd neu gilydd gyda chyhoeddi'r papur ond eto mae'n bwysig ein bod yn medru denu gwaed newydd, felly cofiwch gysylltu os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli – boed hynny fel gohebwyr neu ddosbarthwyr.

*Rhian Evans*



pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:59 pm Page 13

## Adolygiad




*Geraint Evans yn cael ei holi am ei lyfr gan Robat Gruffydd ar faes yr Eisteddfod*

# Hergest

### gan Geraint Evans
### (Y Lolfa, £9.99)

Chefais i erioed wahoddiad i adolygu nofel o'r blaen, yn wir dydw i ddim yn darllen llawer o ffuglen, gan ffafrio llyfrau hanes. Ond bu rhaid rhoi *The Great Game* gan Peter Hopkirk o'r neilltu am y tro er mwyn darllen Hergest, cyfrol ddiweddaraf yr awdur Geraint Evans a chael yr adolygiad hwn i'r golygydd erbyn dyddiad cau rhifyn Medi o *Papur Pawb*. Ac mae'n rhaid i mi ddweud mod i wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Pwy fase'n meddwl bod darlith am feirniadaeth lenyddol gan academydd ifanc, golygus o'r Wladfa, sy'n cynnwys ymddangosiad 'anfwriadol' gaucho cyhyrog noeth, yn gallu esgor ar y fath rialtwch. Ond dyna sydd yma, hynt a helynt Dr Rodrigo Lewis o Batagonia, sy'n treulio blwyddyn ym Mhrifysgol Hergest yn y Canolbarth, diolch i ysgoloriaeth Blwyddyn Breswyl Playfair. cwmni gamblo ac un o brif noddwyr y Brifysgol.

Mae'r nodiadau ar y siaced lwch yn nodi i Geraint fod yn ddarlithydd yn y Brifysgol yn Aber ac yn Warden ar Bantycelyn, a fod y nofel, o bosibl, yn deillio o brofiad personol. O ddarllen hyn, ac fel rhywun sydd wedi treulio blynyddoedd lawer yn gweithio yno fy hun, roeddwn yn awyddus i weld pwy oedd pwy, fel petai. A chefais 'mo fy siomi. Mae'r cymeriadau'n fyw, er efallai nad yw'r gwiberod yn nyth ddysgedig Hergest mor wenwynig yn y byd go iawn.

Mae ei adnabyddiaeth fanwl o'r byd academaidd yn rhoi fframwaith gadarn i'r nofel; yn wir, pwy arall fyddai'n mentro cyflwyno cysyniadau marcio arholiadau megis 'Window of Opportunity' a 'Preponderance'a'u cyfieithu'n hwylus i 'Ddrws Trugaredd' a 'Dringa i fyny yma'?

Yn ogystal, mae yma gyfeiriad at ymweliad brenhinol sy'n dod i ben yn gynnar yn sgil anffawd gyda thap dŵr, er fod pawb yn credu mai protest gan fyfyrwyr sy'n achosi i'r Tywysog a'i entourage ei heglu hi oddi yno. Mae yma, hyd yn oed, gyfeiriad at gyn aelod staff yr oedd amheuaeth ei fod yn aelod o MI5, a honiad o werthu caeau chwarae er mwyn adeiladu 'Wellness Resort'. Swnio'n gyfarwydd?

Ond yn anad dim, mae yma stori ddifyr am ŵr ifanc cydwybodol o Borth Madryn sy'n dychwelyd i'r famwlad gan brofi mwy na'i siâr o droeon trwstan, ond hefyd rhai o bleserau bywyd. Mae'n hawdd ei darllen, yn llawn hiwmor a chwarae ar eiriau, a bydd llawer ohonom yn 'nabod' nifer o'r cymeriadau, a dyna sy'n ei gwneud hi'n hwyl i'w darllen. Dihangfa am ennyd o fyd llawn gwae, ac oes, mae angen hynny o bryd i'w gilydd.

*Arthur Dafis*

## Cangen Plaid Cymru, Talybont



# Cydnabod ein llwyddiannau a cynllunio i'r dyfodol

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol cangen Plaid Cymru Tal-y-bont a'r cylch yn y Neuadd Goffa ar 5 Gorffennaf 2022, Arweiniwyd y cyfarfod gan Gadeirydd y gangen, Phil Davies.

Cyflwynwyd teyrnged i Ellen ap Gwynn gan y Cadeirydd ar achlysur ei hymddeoliad fel Cynghorydd Sir Ceredigion ar ôl 23 mlynedd o wasanaeth fel Cynghorydd Plaid Cymru dros Ward Ceulanamaesmawr – y 10 mlynedd olaf hefyd yn gweithredu fel Arweinydd y Cyngor yn ystod cyfnod arbennig o heriol i lywodraeth leol. Cyflwynwyd planhigyn rhosyn i Ellen i'w blannu yn yr ardd i gofio am y cyfnod hwn. Bydd Ellen yn parhau fel Cynghorydd Cymuned ac aelod o Bwyllgor Etholaeth a Chyngor Cenedlaethol Plaid Cymru.

Cyflwynwyd rhosyn arall i Catrin M.S. Davies i nodi ei llwyddiant wrth ennill yr etholiad i olynu Ellen fel Cynghorydd Sir Ceredigion dros Ward Ceulanamaesmawr ym mi Mai, ac i ddymuno'r gorau iddi yn y swydd bwysig hon. Diolchwyd iddi am ei pharodrwydd i sefyll ar ran Plaid Cymru yn y Ward ac am ei gwaith caled wrth ymgysylltu â chymaint o'r etholwyr ag oedd yn bosib yn y cyfnod cyn yr etholiad. Nid yw'r profiad o sefyll etholiadau yn un ddieithr i'w theulu chwaith, gan i'w Thad fod yn Cynghorydd dros ardal Mynydd Bach ar yr hen Gyngor Sir Aberteifi flynyddoedd yn ôl. O ganlyniad i'r etholiad mae gan gynghorwyr Plaid Cymru yn awr fwyafrif ac Gyngor Sir Ceredigion ac mae Catrin hefyd yn aelod o'r Cabinet sy'n llywodraethu. Diolchwyd hefyd i Mair Nutting am weithredu fel Asiant i Catrin.

Nodwyd ymrwymiad yr aelodau adeg etholiadau gan chwarae eu rhan i sicrhau llwyddiant Harry James, Ellen ap Gwynn a Catrin M.S. Davies mewn etholiadau Cyngor Sir, Elin Jones yn etholiadau Senedd Cymru a Ben Lake yn yr Etholiadau i San Steffan. Pob un yn gwneud eu gorau dros ddyfodol gwell i'n gwlad a'i phobl.

Yn ogystal â pharatoi a dosbarthu taflen yn y misoedd nesaf, cytunwyd y byddai Pwyllgor y gangen yn cyfarfod i drafod rhaglen o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Soniwyd yn benodol am drefnu cyfleoedd i Ben, Elin a Catrin gwrdd â'r cyhoedd.

*Iolo ap Gwynn*

NICEIC
APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
**E** alun.davies142@btinternet.com

# Buddugwyr Lleol Sioe Tal-y-Bont

CANLYNIADAU'R BABELL

GWREIDDIAU A GRONYNNAU
**Yr ardd flodau orau**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
2. Rachel Mills, Tal-y-bont
3. Nicola Myring-Thomas, Tal-y-bont
**Yr ardd lysiau orau**
1. Helen Hicks, Llangynfelyn
2. Claire Fowler, Tal-y-bont
3. Jo Chalmers, Pentrebach
**Cae wedi ei ail-hadu yn 2021 neu 2022**
1. Teulu Evans, Tynant, Tal-y-bont
2. Huw Davies, Bont-goch
3. Huw Davies, Bont-goch
**Cae o swej, rep neud faip**
1. Teulu Evans, Tynant, Tal-y-bont
1. Huw Davies, Bont-goch
**Ffens o 100m neu fwy wedi ei chodi yn y flwyddyn diwethaf**
1. Huw Davies, Bont-goch
2. Dafydd Jenkins, Tanrallt
3. Gareth Jenkins, Ffwrnais
**Yr ysgallyn hiraf**
2. Teulu Tynant, Tal-y-bont
**Belen o Wair Dôl**
1. Dylan a Geraint Evans, Tal-y-bont
2. Rhoswen Evans, Tre'r-ddôl
**Tywarchen Orau o Borfa Sefydlog**
1. Teulu Tynant, Tal-y-bont
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
Teulu Evans, Tynant, Tal-y-bont

CYNNYRCH GARDD
**3 Winwnsyn (Hadau)**
2. a 3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**3 Cenhinen**
3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**4 Taten Wen**
3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**3 Betys Crwn**
3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**4 Coden Bys**
2. Elfed Jones, Tal-y-bont
**4 Tomato**
1. Marc Richards, Tal-y-bont
3. Elfed Jones, Tal-y-bont
**1 Sypyn o Domatos**
1. David Jones, Tal-y-bont
2. David Jones, Tal-y-bont
3. John Foster, Tal-y-bont
**2 Faro sy'n llai na 12 modfedd o hyd**
2. Helen Hicks, Llangynfelyn
**2 Faro 12 modfedd o hyd a mwy**
3. Lise McGuff, Tre'r-ddôl
**2 Ciwcymbr**
1. John Foster, Tal-y-bont
2. Nia Richards, Tal-y-bont
3. Marc Richards, Tal-y-bont
**6 Tomato Ceirios**
1. Sarah Reisz, Tal-y-bont
3. Marc Richards, Tal-y-bont
**4 Ffa Ffrengig**
1. David Jones, Tal-y-bont
2. Jo Chalmers, Tal-y-bont
3. David Jones, Tal-y-bont
**4 Coden o Ffa**
3. David Jones, Tal-y-bont
**3 Coesyn Riwbob**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
**3 Corbwmpen**
2. Sarah Reisz, Tal-y-bont

LLEOL
**Casgliad o 4 Perlysiau**
1. Cathryn Lloyd Williams, Bont-goch
2. Helen Hicks, Llangynfelyn
3. Anthony Holt, Tal-y-bont
**3 Corbwmpen**
2. Sarah Reisz, Tal-y-bont
**4 Taten**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
**3 Coesyn Riwbob**
1. Elfed Jones, Tal-y-bont
2. Anthony Holt, Tal-y-bont
3. Elfed Jones, Tal-y-bont
**4 Ffa Dringo**
1. David Jones, Tal-y-bont
2. David Jones, Tal-y-bont
3. John Foster, Tal-y-bont
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1. Claire Fowler, Tal-y-bont
2. Helen Hicks, Llangynfelyn
3. Sarah Reisz, Tal-y-bont

ARDDANGOSFA ORAU
Sarah Reisz, Tal-y-bont

FFRWYTHAU
**3 Afal Bwyta**
1. Lisa Tomos, Pentrebach
3. Marc Richards, Tal-y-bont
**3 Afal Coginio**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
2. Kathleen Keirle,Tal-y-bont
3. Rebecca Williams, Tal-y-bont
**3 Peren Fwyta**
1. Marc Richards, Tal-y-bont
3. Rebecca Williams, Tal-y-bont
**3 Peren Goginio**
1. Elfed Jones, Tal-y-bont
2. Elfed Jones, Tal-y-bont
**6 Eirinen Ddu**
1. Sarah Reisz, Tal-y-bont
2. Elfed Jones,Tal-y-bont
3. Elfed Jones, Tal-y-bont
ARDDANGOSFA ORAU
Anthony Holt, Tal-y-bont
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
Elfed Jones, Tal-y-bont

BLODAU
**4 Dahlia Collarette neu betal sengl**
1. Nia Richards, Tal-y-bont
**4 Pysen Bêr**
1. Sarah Reisz, Tal-y-bont
**4 Trilliw**
1. Nia Richards, Tal-y-bont
**Cactws mewn Pot**
1. Barry Thomas, Eglwys Fach
2. Barry Thomas, Eglwys Fach
**Suddlon mewn Pot**
1. Sarah Reisz, Tal-y-bont
2. Barry Thomas, Eglwys Fach
3. Shelley Foulkes, Tre Taliesin
**Planhigyn Dail y Tŷ mewn Pot**
1. Helen Ovens, Tre Taliesin
2. Barry Thomas, Eglwys Fach
3. Sarah Reisz, Tal-y-bont
**Planhigyn Tŷ yn ei Flodau mewn Pot**
1. Ann Ovens, Tal-y-bont
2. Catrin MS Davies, Tal-y-bont
3. Shelley Foulkes, Tre Taliesin
**Begonia mewn Pot**
1. Sarah Reisz, Tal-y-bont
2. Sarah Reisz, Tal-y-bont
**Gardd Fach ar Blât - Plant o dan 14 mlwydd oed**
1. Cadi Lloyd Williams, Bont-goch
2. Ariana Lloyd Williams, Bont-goch,
3. Elen Lloyd Williams, Bont-goch
**Casgliad o Flodau Gwyllt. Plant dan 14 mlwydd oed**
1. Elen Lloyd Williams, Bont-goch
2. Ariana Lloyd Williams, Bont-goch
ARDDANGOSFA ORAU
Ann Ovens, Tal-y-bont
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN (LLEOL)
Sarah Reisz, Tal-y-bont

GOSOD BLODAU
**Mae bach yn brydferth, trefniant ar raddfa fach**
3. Jill South, Tre Taliesin
**Ar Lan y Mor - trefninant yn ymgorffori agweddau ar y mor e.e cregyn**
2. Ffion Hicks, Llangynfelyn
**'Cymerwch 5' - trefniant o dan amodau**
1. Jane Bailey, Bont-goch

COGINIO
**Cacen Ffrwythau**
2. Jill South, Tre Taliesin
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Sbwng Fictoria**
2. Ceri Jones, Tal-y-bont
**Cacen Lemwn**
1. Sara Jenkins, Borth
3. Lisa Tomos, Pentrebach
**Sbwng Siocled**
3. Ceri Jones, Tal-y-bont
**Bara Brith – heb furum**
1. Janet Evans, Tre'r-ddôl
2. Ceri Jones, Tal-y-bont
**Torth Cartref – Tin Hirsgwar**
1. Mick Fothergill, Tal-y-bont
2. Elfed Jones, Tal-y-bont
**4 Sgon**
2. Sara Jenkins, Borth
3. Janet Evans,Tre'r-ddôl
**6 Pice ar y Maen**
1. Nia Richards, Tal-y-bont
**Pei Meringue Lemwn**
3. Janet Evans,Tre'r-ddôl
**Pedair eitem yn defnyddio afal**
1. Jane Bailey, Bont-goch
**Tarten Ffrwythau**
3. Elfed Jones, Tal-y-bont
**4 Fflapjacs**
1. Carys Joseph, Tal-y-bont
3. Ceri Jones, Tal-y-bont

**Caceb Binafal Ben i Waered (Cystadleuaeth i wrywod yn unig)**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
2. Marc Richards,Tal-y-bont
3. Dylan Jones, Tal-y-bont
ARDDANGOSFA ORAU
Mick Fothergill, Tal-y-bont
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN I WRYWOD
Mick Fothergill, Tal-y-bont

CYFFEITHIAU
**Jar o Jam Ffrwythau Meddal**
1. Jill South, Tre Taliesin
**Jar o Jeli Ffrwythau**
1. Janet Jones,Tal-y-bont
**Jar o Geuled Lemwn**
1. Janet Jones, Tal-y-bont
2. Ellyw Siencyn
**Jar o Siytni Afal**
1. Janet Jones, Tal-y-bont
Jar o Siytni Betys
1. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Siytni Ffa Dringo**
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Siytni arall**
1. Janet Jones, Tal-y-bont
3. Nia Richards, Tal-y-bont
**Jar o Gyffaith Anarferol**
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Potel o Gordial**
1. Susan Peterson, Llangynfelyn
3. Kathleen Keirle, Tal-y-bont
**Potel o Wirod Ffrwythau**
1. Ellyw Siencyn, Tal-y-bont
2. Ellyw Siencyn, Tal-y-bont
3. Jo Chalmers, Tal-y-bont
ARDDANGOSFA ORAU
Janet Jones, Tal-y-bont

CYNNYRCH LLAETHDY
**4 ŵy Iâr – Gwyn**
1. Osian, Gruffudd a Tomos Jones, Tal-y-bont
2. Osian, Gruffudd a Tomos Jones, Tal-y-bont
**4 ŵy – Arlliwiedig**
1. Shelley Foulkes, Tre Taliesin
**4 ŵy Hwyaden**
1. Ffion Hicks, Llangynfelyn
ARDDANGOSFA ORAU
Ffion Hicks, Llangynfelyn
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
Osian, Gruffudd a Tomos Jones, Tal-y-bont

MÊL
**Eitem cosmetig yn cynnwys mel**
3. Kathleen Keirle, Tal-y-bont
**Cacen o Gŵyr Gwenyn (tua 1 lb))**
3. Kathleen Keirle, Tal-y-bont

GWAITH LLAW
**Sampler**
1. Betty Jenkins, Tal-y-bont
3. Betty Jenkins, Tal-y-bont
**Unrhyw Eitem mewn Pwyth Croes**
2. Betty Jenkins, Tal-y-bont
**Clustog**
1. Betty Jenkins, Tal-y-bont
2. Betty Jenkins, Tal-y-bont
**Rhodd i Faban**
2. Claire Drakeley, Tal-y-bont
3. Myfanwy James, Tal-y-bont
**Dilledyn wedi ei weu â Llaw**
2. Myfanwy James, Tal-y-bont
**Unrhyw Eitem wedi ei Grosio**
1. Catrin Saunders Jones, Tre'r-ddôl
2. Claire Drakeley, Tal-y-bont
**Unrhyw Eitem mewn Gwaith Cynfas**
1. Betty Jenkins, Tal-y-bont
2. Betty Jenkins, Tal-y-bont
**Unrhyw Eitem mewn Clytwaith**
2. Betty Jenkins, Tal-y-bont
**Unrhyw eitem Nadoligaidd**
1. Betty Jenkins, Tal-y-bont
**Bag - unrhyw gyfrwng**
1. Claire Fowler, Tal-y-bont
2. Betty Jenkins, Tal-y-bont
3. Betty Jenkins, Tal-y-bont
ARDDANGOSFA ORAU
Claire Fowler, Tal-y-bont
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
Betty Jenkins, Tal-y-bont

CREFFT
**Darn o emwaith wedi ei wneud o ddeunydd wedi ei ailgylchu**
1. Jenny Fothergill, Tal-y-bont
3. Jo Fothergill, Tal-y-bont
**Eitem addurnol i'r ty allan o ddeunydd wedi ailgylchu**
1. Jenny Fothergill, Tal-y-bont
**Eitem o Waith Coed**
1. Gerwyn Breeze, Tal-y-bont
2. Gerwyn Breeze, Tal-y-bont
3. Ben Fothergill, Tal-y-bont
**Eitem addurnol i'w harddangos tu allan**
2. Jenny Fothergill,Tal-y-bont
3. Jo Chalmers, Tal-y-bont
**Unrhyw eitem yn defnyddio broc mor**
1. Cynrig Williams, Bont-goch
3. Liam Maguire, Tal-y-bont
**Unrhyw Eitem yn denfyddio gwlan**
3. Helen Ovens, Tre Taliesin
**Paentiad - unrhyw gyfrwng**
2. Kathleen Keirle, Tal-y-bont
ARDDANGOSFA ORAU
Gerwyn Breeze, Tal-y-bont
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
**Jenny Fothergill,Tal-y-bont**

FFOTOGRAFFIAETH
**Dathlu**
2. Catrin M S Davies, Tal-y-bont
3. Catrin M S Davies, Tal-y-bont
**Tywydd a Hinsawdd**
1. Elen Lloyd Williams, Bont-goch
**Fy hoff lun gyda phennawd**
2. Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
3. Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
**Llun doniol**
3. Catrin M S Davies, Tal-y-bont
**Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd – Hwyl neu Grisiau**
1. Ariana Lloyd-Williams, Bont-goch
2. Elsi Iago, Tal-y-bont
3. Mattias Woodling, Tal-y-bont
**Patrymau**
1. Catrin M S Davies, Tal-y-bont
2. Jo Chalmers, Tal-y-bont

PLANT YSGOL GYNRADD TAL-Y-BONT
**Dosbarth Meithrin: Anifeiliaid**
1. Sorsha Whincup
2. Erika Cartwright
3. Conor Cartwright
**Dosbarth Derbyn: Byd Natur**
1. Erin Aubrey
2. Owain Southgate
3. Jessie Jenkins
**Blwyddyn 1 a 2 :**
1. Noah Jamieson
2. Ellen Davies
3. Elsi Iago
**Blynyddoedd 3 a 4: Adeilad Enwog**
1. Cadi Lloyd Williams
2. Minnie Evans
3. Deio Dafis
3. Isla Haddon
**Blynyddoedd 5 a 6: 'Pop Art'**
1. Siskin Harding-Bubb
2. Shae Jones
3. Demie Farrar

PLANT YSGOL GYNRADD AGORED
**Dosbarth Meithrin: Paentiad o ardd flodau**
2. Tomos Jones, Tal-y-bont
3. Efan Aubrey, Tal-y-bont
**Dosbarth Derbyn: Paentiad o anifail sw**
2. Erin Aubrey
**Blwyddyn 1 a 2 : Celf yn defnyddio bysedd**
1. Gruffudd Jones, Tal-y-bont
**Blynyddoedd 3 a 4: Yr Ardd**
1. Caio Lewis, Tal-y-bont
2. Mari Evans,Tal-y-bont
3. Cai Lloyd-Williams,Bont-goch
3. Miri Benjamin, Tal-y-bont
**Blynyddoedd 5 a 6: Paentiad o gêm bêl-droed**
1. Rowan Glover, Tal-y-bont
3. Tomos Breeze,Tal-y-bont

PLANT YSGOL UWCHRADD
**Dysgl o basta**
1. Efa Saunders-Jones, Tre'r-ddôl
2. Megan Glover, Tal-y-bont
3. Osian Lewis, Tal-y-bont
3. Bleddyn Lewis, Tal-y-bont
**Smwddi gyda rysait**
1. Efan Saunders-Jones, Tre'r-ddôl
2. Carys Joseph, Tal-y-bont
3. Bleddyn Lewis, Tal-y-bont
**Llawysgrifen**
1. Megan Glover,Tal-y-bont
2. Elen Lloyd-Williams, Bont-goch
**Llun ar y thema 'Cymru'**
1. Megan Glover, Tal-y-bont
2. Osian Lewis, Tal-y-bont
**Eitem wedi ei wneud yn yr ysgol**
1. Megan Glover, Tal-y-bont
2. Gethin Davies, Tal-y-bont
3. Gethin Davies, Tal-y-bont
3. Osian Lewis, Tal-y-bont
ARDDANGOSFA ORAU
Megan Glover, Tal-y-bont
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
Megan Glover, Tal-y-bont

CLWB FFERMWYR IFANC
**4 tarten jam**
1. Efa Saunders-Jones, Tre'r-ddôl
**4 Rholyn Selsig**
1. Efa Saunders-Jones, Tre'r-ddôl
MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN
1. Efa Saunders-Jones, Tre'r-ddôl



**CEFFYLAU**
**COBIAU CYMREIG (Adran D)**
Mr J Morris, Tyn y Coed Farm, Conwy
**3: Caseg Hesb neu Geffyl, 4 blwydd oed neu hŷn**
1 Megan Williams, Clettwrside, Llangynfelyn
**7: Cob Cymreig Adran D yn cael ei ddangos o dan gyfrwy**
3 Megan Williams, Clettwrside

**ADRAN HELFARCH/HURFEIRCH A MARCHOGAETH**
Mrs J. THOMAS, Penrhiw, Llanilar
**29: Ceffyl Merlota Gorau 138cm ac yn is. I'w farchogaeth (Agored)**
1 Leah Cartwright, Dan y Coed, Taliesin
**32: Caseg neu Geffyl Hela dros 158cm i'w dangos dan gyfrwy**
1 Megan Williams, Clettwrside
2 Helen Revington, Ffermdy Dolen, Eglwys Fach
**33: Hurfarch gorau, unrhyw uchder, i'w farchogaeth**
1 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn adran Hurfeirch a Marchogaeth – Becca Fflur
**ADRAN CLYBIAU MARCHOGAETH A MERLOD**
**35: Caseg neu Geffyl 4 blwydd oed a throsodd gorau sy'n addas ar gyfer gweithgaredd clybiau marchogaeth a merlota i'w farchogaeth gan blentyn**
**16 mlwydd oed ac iau**
3 Mari Heulwen Evans, Glanaber, Tal-y-bont
**36: Caseg neu Geffyl 4 blwydd oed a throsodd gorau sy'n addas ar gyfer gweithgaredd clybiau marchogaeth a merlota i'w farchogaeth gan unigolyn 17 mlwydd oed ac yn hŷn**
3 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
**CEFFYLAU LLIW A PALOMINO**
**39: Caseg neu Geffyl 4 blwydd oed neu'n hŷn, i'w farchogaeth**
1 Helen Revington, Ffermdy Dolen
2 Megan Williams, Clettwrside
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn adran Ceffylau Lliw a Palomino – Helen Revington
**CEFFYLAU FETERAN**
**40: Caseg neu Geffyl 15 mlwydd oed neu hŷn – i'w arwain**
2 Mari Heulwen Evans, Glanaber
**41: Caseg neu Geffyl 15 mlwydd oed neu hŷn – i'w farchogaeth**
1 Leah Cartwright, Dan y Coed
2 Mari Heulwen Evans, Glanaber

**CEFFYLAU RHAN FRID CYMREIG**
Miss R. LAMB, 7 Morfa Las, Maes Hyfryd, Abergwaun
**45: Yr Eboles neu'r Ceffyl gorau, 3 blwydd oed neu iau – i'w arwain**
1 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll
**46: Y Gaseg neu'r Ceffyl gorau, unrhyw uchder – i'w farchogaeth**
2 Megan Williams, Clettwrside

**ADRAN BRIDIO MERLOD MARCHOGAETH**
**50: Ebol, Eboles neu Geffyl 2 neu 3 Blwydd**
1 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll
2 Ella Mathews, Awel y Môr, Staylittle, Tal-y-bont
**CWPAN:** am yr arddangosyn gorau yn adran Bridio Merlod Marchogaeth – Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll

**CYSTADLEUAETH DANGOSYDD IFANC**
**51: Dangosydd Ifanc gorau o dan 12 oed yn yr adran Geffylau/Merlod**
3 Mari Heulwen Evans, Glanaber
**52: Dangosydd Ifanc gorau rhwng 12 a 16 mlwydd oed ar y 1af o Ionawr 2022**
3 Ella Mathews, Awel y Môr

**ADRAN MERLOD MARCHOGAETH**
**54: Merlen, caseg neu geffyl nad yw'n fwy na 122cm i'w farchogaeth am y tro cyntaf ac sydd yn addas i'w farchogaeth gan blentyn a aned yn 2012 neu wedi hynny.**
1 Leah Cartwright, Dan y Coed
**58: Dosbarth Lleol – yn gyfyngedig i'r rhai hynny sy'n byw o fewn radiws o 5 milltir i Dalybont**
2 Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll
3 Leah Cartwright, Dan y Coed

**GWARTHEG**
**Da Duon Cymreig**
Mr A Vaughan, Penrhos, Llanfor, Bala
**68: Bwych gyflo neu bwych sydd yn llaetha a aned cyn 1.1.2019**
1 a 2 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Talybont
**72: Llo a aned yn 2022**
1,2,3 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**73: Pâr o wartheg**
1 a 2 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn yr adran – Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**RHOSGLWM** y Pencampwr i'r Fenyw orau – Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

**BUWCH A LLO MEWN LLOC**
Mr A Vaughan, Penrhos, Llanfor, Bala
**74: Buwch Ddu Gymreig gyda'i llo pur neu groes (a aned yn 2022) wrth droed, i'w beirniadu mewn lloc.**
1 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Talybont

**GWARTHEG HOLSTEIN Y DU**
Mr G Williams, Penygenhill, Glasbury, Gelli Gandryll
**75: Heffer Holstein dan 12 mis oed ar ddiwrnod y Sioe.**
2 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont
**76: Heffer gyflo Holstein**
3 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**77: Bwych gyflo Holstein sych**
2 a 3 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**78: Heffer Holstein sy'n llaetha**
1 a 2 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**79: Bwych Holstein sy'n llaetha**
1 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**80: Pâr o wartheg**
1 Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn yr adran – Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**RHOSGLWM** yr Is-Bencampwr – Teulu Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

**CYSTADLEUAETH TYWYSYDD IFANC**
Mr T Bedell, Meat Market Place, Swydd Gaerlleon
**81: Tywysydd ifanc o dan 12 mlwydd oed yn arwain llo.**
1 Charlie Foulkes, Voelas Villa, Taliesin
2 Elinor Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
3 Tomi Jac, Cerrigcaranau Uchaf
3 Leusa Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
**82: Tywysydd ifanc rhwng 12 a 16 mlwydd oed yn arwain llo.**
1 Lewys Foulkes, Voelas Villa, Taliesin

**DA BÎFF (Masnachol neu Bedigri)**
Mr A Vaughan, Penrhos, Llanfor, Bala
**85: Heffer nad yw'n dangos unrhyw ddannedd llydan.**
2 Elgan a Siwan Evans, Pantcoch, Talybont
**RHOSGLWM** yr Is-Bencampwr – Elgan a Siwan Evans, Pantcoch, Talybont

**TARIAN PENCAMPWR Y PENCAMPWYR GWARTHEG**
Mr T Bedell, Meat Market Place, Swydd Gaerlleon
**Pencampwr:** Huw Jones, Llety Cynnes, Bow Street

**DEFAID**
**DEFAID MYNYDD CYMREIG**
Mr G. JONES, Moelfre Mawr, Cerrig-y-Drudion
**88: Hwrdd, 2 flwydd oed ac yn hy^n**
1 a 2 Teulu Tynygraig, Tal-y-bont
3 Dyfed Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**89: Hwrdd blwydd**
1 Teulu Tanrallt, Talybont
2 Teulu Tynygraig
3 Dyfed Evans, Glanrafon
**90: Oen Hwrdd**
1 a 2 Teulu Tynygraig
3 Teulu Tanrallt
**91: Dafad, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
2 Teulu Tynygraig
**92: Dafad flwydd**
1 a 2 Teulu Tynygraig
3 Dyfed Evans, Glanrafon
**93: Oen benyw**
1 Dyfed Evans, Glanrafon
2 Teulu Tynygraig

**94: Grŵp**
Teulu Tynygraig
**95: Pâr o hyrddod. Blwydd oed neu'n hŷn**
1 Teulu Tynygraig
2 Dyfed Evans, Glanrafon
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn yr adran – Teulu Tanrallt
**RHOSGLWM:** hwrdd gorau – Teulu Tanrallt
**CWPAN:** oen hwrdd gorau – Teulu Tynygraig
**RHOSGLWM:** grŵp gorau – Teulu Tynygraig
**CWPAN:** pâr o hyrddod – Teulu Tynygraig

**DEFAID TORDDU**
Mr H. JONES, Gwynle, Cae Rhug, Nefyn
**110: Oen hwrdd**
3 Gruffudd Jones, Awel y Gors, Tal-y-bont
**113: Oen benyw**
2 Gruffudd Jones, Awel y Gors, Tal-y-bont

**DEFAID BALWEN**
Mr H. JONES, Gwynle, Cae Rhug, Nefyn
**121: Hwrdd, unrhyw oed**
1 Elsi, Magw a Nela Evans, Pantcoch, Tal-y-bont
**123: Dafad**
1 Elsi, Magw a Nela Evans, Pantcoch
**124: Dafad flwydd**
1 Elsi, Magw a Nela Evans, Pantcoch
**125: Oen benyw**
1 a 2 Elsi, Magw a Nela Evans, Pantcoch
**126: Grŵp**
Elsi, Magw a Nela Evans, Pantcoch
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn yr adran – Elsi, Magw a Nela Evans, Pantcoch
**RHOSGLWM CILWOBR:** Elsi, Magw a Nela Evans, Pantcoch

**UNRHYW FRID MYNYDD ARALL**
Mr T Evans, Pendre, Llanfihangel y Creuddyn
**134: Hwrdd**
1 a 2 Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
**136: Dafad**
1 a 2 Teulu Alltgoch
**137: Dafad flwydd**
1 Evans Tanllan, Taliesin
**138: Oen benyw**
1 Teulu Alltgoch
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn yr adran – Evans Tanllan
**RHOSGLWM CILWOBR:** Teulu Alltgoch

**DEFAID JACOB**
Mr T Evans, Pendre, Llanfihangel y Creuddyn
**141: Oen hwrdd**
1 Huw Davies, Llety Ifan Hen, Tal-y-bont
**142: Dafad**
2 a 3 Huw Davies, Llety Ifan Hen
**143: Dafad flwydd**
2 a 3 Huw Davies, Llety Ifan Hen
**144: Oen benyw**
2 a 3 Huw Davies, Llety Ifan Hen

**DEFAID TEXEL**
Mr M Pearse, Village Farm, South Brent, Dyfnaint
**159: Hwrdd**
2 a 3 Ffion Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont
**161: Dafad, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
1 Teulu Alltgoch
2 Ffion Jones, Berthlwyd

**DEFAID DORSET (Moel a Chorniog)**
Mr M Pearse, Village Farm, South Brent, Dyfnaint
**165: Hwrdd**
2 a 3 Griffiths a Davies, Dolclettwr Hall, Taliesin
**166: Oen hwrdd**
3 Griffiths a Davies, Dolclettwr Hall
**167: Dafad oedrannus**
1 Griffiths a Davies, Dolclettwr Hall
**168: Dafad flwydd**
3 Griffiths a Davies, Dolclettwr Hall
**169: Oen benyw**
3 Griffiths a Davies, Dolclettwr Hall
**170: Oen benyw (heb ei thocio)**
1 a 2 Griffiths a Davies, Dolclettwr Hall
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn yr adran – Griffiths a Davies, Dolclettwr Hall

**DEFAID ZWARTBLES**
Mr M Pearse, Village Farm, South Brent, Dyfnaint
**173: Oen hwrdd**
2 Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin

**DEFAID BRIDIAU PUR ERAILL**
Mr W Lewis, Fferm Llanbadarn, Pennant, Llanon
**184: Hwrdd**
2 Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
**186: Dafad/Ewe**
1 Teulu Alltgoch

**BRIDIAU PRIN A LLEIAFRIF**
Mr W Lewis, Fferm Llanbadarn, Pennant, Llanon
**193: Dafad Flwydd**
2 Evans, Tanllan, Taliesin
**194: Oen Benyw/Ewe Lamb**
2 Evans, Tanllan

**YN TEWION**
Mr D Jones, Pencarreg, Abergynolwyn, Tywyn
**196: Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso llai na 32kg yn fyw)**
1 Teulu Alltgoch, Tal-y-bont
2 a 3 Huw Davies, Llety Ifan Hen, Tal-y-bont
**197: Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso 32kg neu fwy yn fyw)**
1 Huw Davies, Llety Ifan Hen
3 Teulu Alltgoch
**198: Pâr o ŵyn i'r cigydd, o unrhyw Frîd Mynydd Pur**
1 Teulu Tynygraig, Tal-y-bont
3 Huw Davies, Llety Ifan Hen
**RHOSGLWM:** pâr o ŵyn gorau yn yr adran – Teulu Alltgoch
**RHOSGLWM CIL-WOBR:** Huw Davies, Llety Ifan Hen
**CWPAN:** pâr o ŵyn mynydd pur gorau – Teulu Tynygraig

**CYSTADLEUAETH TYWYSYDD IFANC**
Mr D Jones, Pencarreg, Abergynolwyn, Tywyn
**199: Tywysydd gorau o dan 12 oed, unrhyw ddafad**
2 Ela Williams, Maes-y-deri, Tal-y-bont
3 Caio Lewis, Llannerch, Tal-y-bont
**201: Tywysydd gorau o dan 12 oed, unrhyw oen swci**
1 Mari Heulwen Evans, Glanaber
2 Ieuan Meurig Evans, Glanaber, Tal-y-bont

**CWPAN PENCAMPWR Y PENCAMPWYR**
Mr D Jones, Pencarreg, Abergynolwyn, Tywyn
**Pencampwr:** Rhys Mills, Glan y Môr, Talsarnau (Torwen)
**Is-bencampwr:** D a C Jones, Fferm Danygraig, Llandrindod Wells (Bleu du Maine)

**CYSTADLEUAETH Y LLYWYDD**
Dilwyn a Marion Evans, Tynant, Tal-y-bont
Enillydd arddangosyn gorau y Cobiau Cymreig, Adran D: Mathew Dixon, New Foundry, Ffosyffin
Enillydd arddangosyn gorau y Gwartheg Duon Cymreig: Teulu Cerrigcyranau, Tal-y-bont
Enillydd arddangosyn gorau y Defaid Mynydd Cymreig: Teulu Tanrallt, Tal-y-bont
**Enillydd:** Mathew Dixon, New Foundry, Ffosyffin

**CNEIFIO**
Alun Evans, Fronddel, Llandre, Bow Street
**202: Cneifiwr gorau gyda pheiriant**
2 Gwion Evans, Tanllan, Taliesin
3 Dafydd Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont
**203: Cneifiwr gorau gyda pheiriant yn gyfyngedig i aelodau CFfI**
3 Bedwyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont
**204: Cneifiwr gorau gyda pheiriant, dan 18 oed**
2 Ynyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont
**205: Cneifiwr gorau gyda gwellau**
1 Rhydian Evans, Tynant, Tal-y-bont

**SIOE GŴN**
Mrs G Lewis (Trixhund), Glasbant, Llwyncelyn
**1: Unrhyw fath o gi bach, ci neu ast (6-12 mis)**
2 Barry Thomas, Ynys Einion, Eglwys Fach
3 Teleri Morgan, Pwll Glas, Bow Street
**5: Ci neu Ast Defaid gorau sy'n gweithio**
2 Hana Evans, Cefngweiriog, Tre'r Ddôl
**7: Ci neu Ast orau dros 12 modfedd o uchder**
1 Kacth Edwards, Llys y Coed, Taliesin
3 Hana Evans, Cefngweiriog
**8: Dangosydd gorau o dan 12 mlwydd oed**
3 Arianna Brian, Minafon, Tal-y-bont
**9: Dangosydd gorau dros 12 mlwydd oed**
3 Heulwen Astley, Gorlan, Tal-y-bont
**10: Mwngrel neu frid X gorau**
1 Izzy Albutt, Glan Ystwyth, Tre'r Ddôl
**11: Y ci â'r gynffon sy'n siglo fwyaf**
1 Hana Evans, Cefngweiriog



pp Medi 22.qxp_Layout 1 06/09/2022 2:59 pm Page 16

# Chwaraeon a Hamdden



## Pencampwyr

Ar ôl deugain mlynedd o fodolaeth, daeth llwyddiant o'r radd flaenaf i'r clwb criced eleni. Daeth y tîm i frig cystadleuaeth clybiau Gorllewin Cymru am y tro cyntaf erioed drwy drechu tîm y 'Commoners' a'r tywydd ar 21 Awst a chipio'r bencampwriaeth. Oherwydd hyn, bydd enw'r pentref yn ymddangos yn almanac enwog 'Wisden' y flwyddyn nesaf. Tipyn o anrhydedd.

Bydd llawer yn cofio'r clwb yn chwarae ar gae fferm Felinfach, llecyn hyfryd ar lan yr afon Leri. Yn anffodus, yn dilyn diflastod clwy traed a'r genau, rhaid oedd i'r clwb symud, ac ar ôl dipyn o grwydro, daethpwyd i drefniant o ran rhannu cae y Geufron gyda chlwb Aberystwyth. Yn wir, cael a chael oedd i'r clwb oroesi o gwbl, gan gyfuno gyda chlwb 'Rachels' rhyw ddeg mlynedd yn ol.

Clwb a noddir gan y cwmni cynnyrch llaeth yw 'Rachels'. Mae nifer o chwaraewyr y clwb yn dod yn wreiddiol o dalaith Kerala yn ne India, ac mae eu brwdfrydedd a'u gallu wedi tanio'r cynghrair eleni.

Yn nyddiau pell y Gwanwyn, ni fuasai neb wedi breuddwydio enwebu Talybont/Rachels fel ffefrynnau, ond ar ôl dechrau cymysg, enillodd y clwb saith o'r wyth gêm olaf, gyda'r llall yn cael ei gohirio. Nid oeddem yn geffylau blaen tan y gêm olaf – lleihawyd hon i ugain pelawd o dan gymylau bygythiol, ac ar ôl bowlio Commoners allan am 81, cyrhaeddwyd y nod yn y belawd olaf un. Wrth i'r newyddion gyrraedd nad oedd modd i Tywyn ennill eu gêm hwythau yn erbyn Aberaeron, bu dathliadau mawr ymysg y gwylwyr niferus oedd wedi bod yn cnoi eu hewinedd drwy gydol y prynhawn.

Mae dyfnder y batio wedi bod yn amlwg eleni – dim ond ar ddau achlysur y bowliwyd y tîm allan am lai na 200. Er na sgoriwyd yr un canred, dangoswyd dyfalbarhad y tîm wrth i ddwy gêm gael eu hennill o un wiced, ac un arall o ddwy. Y prif sgoriwr eleni oedd Graison John gyda 255 rhediad, a Zaid Khan oedd yn gyfrifol am y sgôr uchaf o 77 heb fod allan. O ran y bowlio, y gwn mawr a daniodd yn wych oedd y bowliwr cyflym Joel Abraham gyda 32 wiced. Dim ond 16 oed yw Joel, a bydd sawl batiwr yn chwilio'n ddryslyd am ei helmed cyn ei wynebu y tymor nesaf.

Y chwaraewyr amryddawn oedd y capten, Phil Abraham, a'r cledrwr o fri Rasan Singh. Yn ogystal ac achub y clwb gyda'r bat fwy nac unwaith, bu Rhodri Lloyd-Williams yn wicedwr penigamp, a da oedd gweld ei dad Simon, un o sefydlwyr y clwb, yn ymateb i'r alwad pan oedd y tîm yn brin. Cyfranwyr selog eraill oedd yr agorwr llaw chwith Vinod Mathew, a'i fab, y troellwr cyfrwys Titus Mathew.

Er fod y clwb wedi llwyddo i ddenu chwaraewyr newydd eleni, buasai'n wych cael mwy fyth o waed ifanc lleol yn ein plith. Bydd Gwanwyn 2023 yn siŵr o ddod yn gyflym, felly mae croeso i bawb ddod i'r Geufron ar gyfer hyfforddiant ac ymarfer yn y rhwydi. Rhaid anelu am yr uchelfannau eto!

*Huw Chambers*

## Rasys Cŵn y Sioe

Mae'n amlwg fod y Rasys Cŵn ddod yn ddigwyddiad poblogaidd iawn yn y Sioe erbyn hyn. Roedd dros gant o bobl o bob oed yn gwylio'r cyfan ar ddiwedd prynhawn cynnes. Doedd dim syndod bod y cŵn yn chwysu.

Dyma'r canlyniadau.

**Dosbarth 1**
**Ras i gwn defaid**
1af Enoc Jenkins - Dyfi
2il Matt Salter - Fflint
3ydd Peter Loxdale - Saffy

**Dosbarth 2**
**Ras i Ddaeargwn**
1af Mari Evans - Del
2il Ewan Wells - Bram
3ydd Tomos James - Tiny

**Dosbarth 3**
**Ras i Filgwn neu Chwn potsiwr**
1af Ewan Wells - Fly

**Dosbarth 4**
**Ras i Filgwn bach**
1af Christian Edwards - Libby
2il Barry Thomas - Bernie
3ydd Karen Beasley - Dylan

**Dosbarth 5**
**Ras i unrhyw frid arall coes byr**
1af Manon Davies - Nala
2il Elena Jones - Rusty

**Dosbarth 6**
**Ras i unrhyw frid arall coes hir**
1af Ruth Jenkins - Womble
2il Megan Coates - Dougie
3ydd Lucy Edge - Figo

**Dosbarth 7**
**Ras i Ddisgyblion ysgol Gynradd a'u cŵn**
1af Mari Evans - Del
2il Ieuan Evans - Fflos
3ydd Betsan Lloyd-Jones - Jess

**Dosbath 8**
**Ras i ddisgyblion ysgol Uwchradd a'u cŵn**
1af Alice Jones - Rusty



*'Fflint' gyda'i berchnogion Nia a Matt.*

**Dosbarth 9**
**Ras i ferched a'u cŵn**
1af Eifiona Evans - Del
2il Nia Jones - Fflint
3ydd Lucy Edge - Figo

**Dosbarth 10**
**Ras i ddynion a'u cŵn**
1af Matt Thomas - Cadi
2il Rhydian Evans - Del
3ydd Matt Satw - Fflint

**Ras olaf y diwrnod**
Ewan Wells - Fly

## Pêl-droed

Braf yw adrodd fod tîm pêl-droed Tal-y-bont wedi'i atgyfodi ar gyfer tymor 2022-3. O dan arweiniad Evan Rowlands, bydd y tîm yn chwarae yng Nghynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth. Yn galonogol, mae'r tîm yn cynnwys nifer o fechgyn ifanc talentog o'r pentref fel Ioan Joseph a Tomos Benjamin.

Yn anffodus rhaid i'r clwb chwarae y gemau cartref ar feysydd Blaendolau gan nad oes cae addas ar gael yn y pentref. Bydd *Papur Pawb* yn cadw golwg ar hynt a helynt y tîm dros y misoedd nesaf.

Wrth i *Papur Pawb* fynd i'r wasg daeth y newyddion siomedig i'r tîm golli 5-1 bant yn Corris yng ngêm gystadleuol gyntaf y tymor.







pp medi 22 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 06/09/2022 4:22 pm Page 1

# Hwyl yr Haf

ATODIAD LLIW PAPUR PAWB MEDI 2022



*Ann Ovens yn derbyn y gwpan am yr arddangosfa orau yn yr adran flodau*

# Sioe Tal-y-bont




*Osian Jones yn dal y gwpan a enillwyd gan Rowland Davies , Dolclettwr, am ei ddafad Dorset. Yn y llun hefyd mae'r isbencampwr Ilan Hughes, Tyn Hir*



*Y Llywyddion Marian a Dilwyn Evans y derbyn y tusw o flodau gan ferched Wileiriog*



*Anthony Holt, buddugol yn yr Adran Arddwriaethol*



*Yr hyrddod buddugol gyda'r beirniad Mr G Jones*




*Jenny Fothergill gyda'i chlustog*




*Ariana Lloyd-Williams yn dangos ei ffotograff*




*Caio Lewis a'i anghenfil*




*Elen Lloyd-Williams â'i ffotograff buddugol*




*Efa Saunders-Jones gyda'i chacennau blasus*



*Y gwartheg a'u tywyswyr a ddaeth a gwobrau lu i deulu Cerrigcaranau*



*Becca Fflur yn marchogaeth wysg ei hochr*



*Jane Bailey a'i blodau*



*Cadi Lloyd-Williams â'i thlws*



*'Luca', ceffyl apaloosa hardd gyda'i dywysydd Libby*



*Mari Evans, Glanaber, ar gefn ei chaseg*



*Betty Jenkins yn derbyn y gwpan am y pwyntiau uchaf yn yr Adran Gwaith Llaw*




*Vicky'n colurio ym mhabell yr Ysgol Feithrin*

pp medi 22 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 06/09/2022 4:22 pm Page 4




*'Robat y Lolfa' yn cael ei gyfarch gan yr Archdderwydd*






*Delyth Ifan a'i merch Esther a urddwyd yr un pryd*



*Y cneifio cyflym yn Nhanrallt*



*Rhydian Evans yn pedoli yn y Sioe*

Ffotograffau gan Gwyn a Fal Jenkins, David Jones ac Elin Williams

Noddwyd yr atodiad lliw hwn gan **Y Lolfa 01970 832304**